RHONDDA CYNON TAF

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
# RHONDDA CYNON TAF

## BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021 am 10.00 am ym .

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hopkins Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd S Rees

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms A Browning, Pennaeth y Gwasanaeth
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mrs. J Allen, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i Gyfarfod cyntaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/2022.

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Rosser, L Hooper a S Rees- Owen.

**2 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**3 Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gafodd ei gynnal ar 22 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

**4 Rhaglen Waith Ddrafft y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022**

Cafodd yr Aelodau wybodaeth am Raglen Waith Ddrafft y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022. Esboniodd y swyddog fod y rhaglen yn gweithredu'n ddull defnyddiol o reoli llwyth gwaith y Bwrdd, ac mae'r adroddiad yn ddogfen newidiol mae modd ei diwygio trwy gydol y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw flaenoriaethau sydd gan y Bwrdd.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y pwnc i'w drafod a chytuno â'r pynciau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 5 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2020/21

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2020/21. Amlygodd yr Adroddiad Blynyddol y swm enfawr o waith a drafodwyd gan y Bwrdd Rhianta Corfforaethol dros yr hyn a fu'n flwyddyn eithriadol o heriol o ganlyniad i bandemig Covid 19.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth am eu holl waith caled gan addasu i'r sefyllfa newidiol gyflym yr oedd y pandemig wedi'i hachosi a'u canmol i gyd am eu holl waith caled i gadw ein defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel.

Esboniodd y swyddog pe bai Aelodau yn derbyn yr adroddiad drafft, y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ac wedyn i'r Cabinet er mwyn iddo gael ei drafod.

Adleisiodd aelodau’r Bwrdd gydnabyddiaeth y Cadeirydd o’r gwaith a wnaed, gan ofyn bod eu diolch yn cael ei gofnodi.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant fod y gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn yn rhyfeddol ac addasodd y gwasanaeth yn gyflym i'r sefyllfa newidiol a achoswyd gan Covid -19. Parhaodd y Cyfarwyddwr ac egluro bod angen i ni adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud.

Parhaodd y Cyfarwyddwr ac egluro i'r Bwrdd fod deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi y bydd angen i Fyrddau Rhianta Corfforaethol roi rhagod o gydnabyddiaeth i lais y person ifanc ac efallai y bydd angen cynnwys hyn yn y Cylch Gorchwyl yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth bellach **PENDERFYNWYD**:

6 Adroddiad am yr Adroddiad Rhianta Corfforaethol Blynyddol
7 Diolch i Staff ym mhob rhan o'r Gwasanaeth am eu holl waith caled yn ystod pandemig y Covid 19.

## 6 Cynhalwyr Ifainc - Adroddiad Blynyddol 2020 / 2021

Croesawodd y Rheolwr Gwasanaeth - Cynhalwyr, Ymgysylltu a Thaliadau Uniongyrchol y cyfle i gyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ar y gwaith a oedd wedi'i wneud gyda chynhalwyr ifainc yn Rhondda Cynon Taf. Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth sylw hefyd at y gwaith helaeth a wnaed yn ystod y pandemig.

Atgoffwyd aelodau’r Bwrdd o’r adolygiadau a gynhaliwyd ers 2018 mewn perthynas â’r gwasanaethau cymorth gofal yn RhCT a thynnodd y Rheolwr Gwasanaeth sylw at bwyntiau allweddol y gofynnwyd i’r Bwrdd eu cydnabod isod:

7 Newidiodd y gwasanaeth cymorth cynhalwyr ifainc eu dull cefnogi yn ystod y pandemig i ddarparu rhagor o sesiynau un i un yn lle cefnogaeth grŵp. Cafodd y rhai mwyaf agored i niwed eu blaenoriaethu. Ar adegau pan leddfwyd cyfyngiadau, roedd modd

dod â chynhalwyr ifainc ynghyd mewn grwpiau llai. Mae cefnogaeth ar-lein wedi gweithio'n dda i'r cynhalwyr ifainc hŷn (11+ oed) ond nid yw'n cymryd lle cymorth wyneb yn wyneb.

8 Gostyngodd y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer asesu cynhalwyr ifainc yn ystod y cyfnod cloi ac roedd cysylltiad agos rhwng hyn a ph'un a oedd yr ysgolion ar agor ai peidio. Yn ystod Ch1 2021/2022 roedd y gyfradd atgyfeirio yn uwch na'r cyfartaledd.

9 Roedd sicrhau mynediad ar-lein i gynhalwyr ifainc yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig ac fe'i cyflawnwyd mewn sawl ffordd, gan gynnwys cysylltu ag ysgolion, darparu Chromebooks gyda Wi-Fi symudol a hwyluso cynlluniau grant ar gyfer prynu offer digidol.

10 Gwneir ymdrechion i sicrhau cyllid ac adnoddau parhaus i ddarparu cefnogaeth benodol i'r sawl sy'n gynhalwyr i'w brodyr a chwiorydd, sydd yn aml ag anghenion gwahanol i gynhalwyr ifainc. Yn ystod 2021/2022 bydd prosiect peilot yn cael ei ariannu i ddarparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau dros gyfnod dwys o 6 wythnos. Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar les emosiynol.

11 Lansiodd RCT y Cerdyn Cynhalwr Ifanc ym mis Mawrth 2021. Mae'r cerdyn yn fenter ledled Cymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac roedd RhCT yn un o fabwysiadwyr cynnar y cynllun. Lansiwyd fideo hyrwyddo yn ystod Wythnos Cynhwlayr 2021. Mae'r cerdyn yn caniatáu i gynhalwyr ifainc dynnu sylw at eu rôl i weithwyr addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol heb fod angen adrodd eu stori lawn, ac ymhen amser rhagwelir y gallai'r cerdyn gael ei ddefnyddio i dderbyn gostyngiadau a buddion eraill.

Gorffennodd y Rheolwr Gwasanaeth ei hadroddiad trwy egluro bod cynhalwyr ifainc wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig a bydd angen i'r gwasanaethau cymorth ganolbwyntio ar ddelio â chanlyniadau parhaus wrth edrych i'r dyfodol. Bydd y gwasanaeth yn anelu at fabwysiadu dull gwasanaeth cydlynol, bob oed, ar gyfer cynhalwyr di-dâl. Amlygodd y Rheolwr Gwasanaeth y gwasanaeth cynhalwyr ifainc a gomisiynwyr er mwyn cyd-fynd â Chynllun Cynnal y Cynhalwyr o fis Medi, ynghyd â'r Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer cynhalwyr di-dâl a fydd yn llywio strategaethau a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol o ran cynhalwyr.
Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei hadroddiad ac agorodd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch nifer yr atgyfeiriadau yn ystod cam cyntaf y pandemig a gofyn a fyddai'r gwasanaeth yn ailddechrau cynnig cymorth wyneb yn wyneb. Eglurodd y swyddog y byddai dull hybrid yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol, sy'n ymddangos yn gweithio'n fwy effeithiol gyda chynhalwyr ifainc hŷn. Pe bai cynhaliwr ifanc angen dull mwy uniongyrchol yna byddai hyn yn cael ei roi ar waith i ddiwallu ei anghenion.

Canmolodd yr aelodau y cardiau adnabod ar gyfer cynhalwyr ifainc ac ategu'r Cynllun Cenedlaethol. Unwaith eto, tynnodd y swyddogion sylw at y ffilm am

gynhalwyr ifainc, gan nodi bod croeso i aelodau ei gwylio a'i rhannu â chynulleidfa ehangach.
Cafwyd trafodaeth bellach a **PHENDERFYNWYD**:

8 Cydnabod yr wybodaeth yn yr adroddiad; a
9 Derbyn y ddolen i'r ffilm am Gynhalwyr Ifainc a'r Prosiect Cynhalwyr Ifainc.

12 **Darpariaeth Gofal Plant Gofrestredig - Diweddariad Adroddiad Ansawdd**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r aelodau gan y Rheolwr Carfan Darparu Gofal Plant, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifainc. Esboniodd y swyddog mai pwrpas yr adroddiad yw diweddaru Aelodau'r Bwrdd ar leoliadau gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a oruchwylir gan y Gwwasanaeth Cymunedau, Lles a Chydnerthedd (CWRS).

Esboniodd y Rheolwr fod pandemig Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu gofal plant er mwyn sicrhau bod gan y rhai sydd fwyaf angen gofal plant fynediad iddo. Isod mae rhai o'r newidiadau a wnaed yn ystod yr amser hwn:

10 Plant 0-5 oed (yn hytrach na 2 i 3 oed o dan amgylchiadau arferol);
11 Diwrnodau llawn rhwng 07:30 - 18:00 (yn hytrach na gofal sesiynol o 2.5 awr bob dydd);
12 Ar gael i blant gweithwyr hanfodol a phlant y teuluoedd mwyaf agored i niwed (nid yn unig y rheiny sy'n gymwys o ran Dechrau'n Deg)

Esboniodd y newidiadau allweddol ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Mai 2019. Amlygwyd bod datblygiadau gwasanaeth sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â darpariaeth gofal plant ledled RhCT, ac, yn ystod y cyfnod hwn cafodd lleoliad gofal plant pwrpasol Dechrau'n Deg ei sefydlu ar gampws Llwynypia yng Ngholeg y Cymoedd. Mae hyn wedi disodli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn Safle blaenorol Ysgol Gynradd Ynyscynon. Nodwyd hefyd bod Dechrau'n Deg Tonyrefail wedi'i drosglwyddo i ddarparwr allanol i ddarparu'r gwasanaeth.

Aeth y y Swyddog ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau y cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn 2019 gyda staff lleoliad mewnol, staff lleoliad a gomisiynwyd a Theuluoedd Dechrau'n Deg, ynghylch y cynnig 42 wythnos a ph'un a oedd yn ffafriol lleihau hyn i 39 wythnos a chynnig 15 diwrnod o weithgarwch llawn hwyl i'r teulu yn ystod gwyliau'r ysgol. Esboniodd y Swyddog mai'r ymateb ysgubol oedd lleihau i 39 ac ar ôl trafodaeth bellach â Phwyllgorau Craffu, Cabinet ac undebau llafur, cyflwynwyd y cynnig 39 wythnos ym mis Medi 2019.

Derbyniodd aelodau'r Bwrdd drosolwg hefyd o'r adroddiadau ansawdd ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant yr Awdurdod Lleol a'r gwaith a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu, ynghyd â meysydd cryfder a meysydd i'w datblygu.

Ar ôl hyn, agorodd Rheolwr y Garfan y cyfarfod ar gyfer cwestiynau'r Aelodau

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog a chanmolodd y staff hefyd am eu holl waith caled yn ystod y pandemig ac wrth addasu i newid mewn sefyllfa a oedd yn newid yn gyflym.

Adleisiodd yr aelodau ddiolch y Cadeirydd ac roedd Aelodau'r Bwrdd yn falch o weld bod gwaith yn cael ei wneud ar strategaeth llesiant i gefnogi Plant a Phobl Ifainc y Fwrdeistref Sirol o ganlyniad i'r pandemig.

Ar ôl trafodaeth bellach Aelodau **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a chytuno i dderbyn diweddariadau pellach pan fo hynny'n briodol.

10 **Grant Datblygu Disgyblion - Gwerthuso'r Model Clwstwr.**

Cyflwynodd Arweinydd Rhanbarthol Grant Datblygu Disgyblion - Disgyblion sy'n Derbyn Gofal, Consortiwm Canolbarth y De yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am werthuso model clwstwr ysgolion ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 yn Rhondda Cynon Taf.

Atgoffodd y Swyddog yr Aelodau bod y Garfan Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio ar y cyd â Chonsortiwm Canolbarth y De (CSC) i sicrhau bod dull cyson, yn seiliedig ar arfer da, i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ein hysgolion.

Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd hefyd bod y grant yn parhau i gael ei reoli gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae Cyfarwyddwyr Addysg pob awdurdod lleol wedi cytuno ar flaenoriaethau allweddol i wella'r cyfleoedd addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal;

12 Gwella cyflawniad/cyrhaeddiad;
13 Gwella presenoldeb;
13 Lleihau achosion o wahardd disgyblion;
14 Gwella capasiti'r ysgolion i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth, gwaith rhwng ysgolion a rhannu arfer da (o fewn y clwstwr) a;
15 Sicrhau bod partneriaethau ledled y rhanbarth yn parhau i ddatblygu o fewn Consortiwm Canolbarth y De, ysgolion, Gofal Cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Esboniodd y Swyddog y sefyllfa bresennol mewn perthynas â dyrannu cyllid. Dyraniad grant y cynllun clwstwr ar gyfer RhCT yn 2018/19 oedd £366,686, £357,893 yn 2019/20 a £395.026 ar gyfer 2020/21 ac amlygodd hyn fod ysgolion wedi parhau i wneud cais am gyllid ar sail clwstwr yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. i ranbartholi cyllid y Grant Datblygu Disgyblion - Disgyblion sy'n Derbyn Gofal trwy'r pedwar consortia addysg.

Roedd yr aelodau'n falch o weld bod gan y Consortiwm, yn rhan o'r Grant Datblygu Disgyblion - Disgyblion sy'n Derbyn Gofal, gronfa fwrsariaeth i sicrhau bod carfanau Plant mewn Addysg yr Awdurdod Lleol yn gallu ymateb i anghenion ychwanegol sy'n codi oherwydd symudiadau mewn lleoliad ac ysgol ac anawsterau emosiynol/cymdeithasol cymhleth. Mae'r aelodau hefyd yn cydnabod y dull y mae RhCT wedi canolbwyntio arno.

Trafododd y Bwrdd y gwerthusiad o Ddull Model clwstwr Grant Datblygu Disgyblion - Disgyblion sy'n Derbyn Gofal a chroesawodd y cynnydd yn nifer yr ysgolion RhCT sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant Ysgolion Cyfeillgar i Blant sy'n derbyn gofal. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed bod clystyrau ysgolion fod yn rhagweithiol iawn gyda'u cynllunio clwstwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 a chydnabuwyd y bydd angen sefydlu proses werthuso fwy trylwyr a

chynhwysfawr er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd llawn dull clwstwr o ddyrannu Grant Datblygu Disgyblion - Disgyblion sy'n Derbyn Gofal i'n hysgolion yng ngoleuni'r pandemig Coivd -19 ac o ganlyniad i'r ehangach effaith ar bob dysgwr mewn ysgolion RhCT.

Diolchodd yr aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a chyflwyno llawer o arsylwadau, nododd yr Aelodau fod llawer wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ond byddent yn gofyn bod adroddiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Byddai hyn yn ei dro yn dangos effaith dulliau a gymerir gan ysgolion i ddiwallu anghenion cymhleth Dysgwyr sy'n Derbyn Gofal.

Cafwyd trafodaeth a PHENDERFYNWYD

**9 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol**

Gyda Chytundeb y Cadeirydd a'r Bwrdd bydd yr eitem hon yn symud i gyfarfod yn y dyfodol

**13 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**11 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2021.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

**14 Adroddiadau Rheoliad 73**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodeb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

**16 Unrhyw Busnes Arall**

Manteisiodd y Bwrdd ar y cyfle i ddiolch i Ms Anne-Marie Browning am ei holl waith caled trwy gydol ei gwasanaeth i'r Awdurdod a dymuno'n dda iddi yn ei hantur waith newydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd.**